

# Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

## Cydlynydd Cyfathrebu Dros dro (rhan amser)

Pecyn Recriwtio

# Croeso gan y Pennaeth Gwasanaeth



Mark McNamara
PENNAETH GWASANAETH ACGCC

Yn yr ACGCC rydym yn helpu i greu rhwydwaith ffyrdd sy'n cysylltu pobl a lleoedd mewn modd mwy diogel, a mwy dibynadwy.

Rydym yn gweithio ar brosiectau ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru sy'n mynd i'r afael â rhai o heriau mwyaf tyngedfennol y wlad. O seilwaith cymhleth, cynyddu anghenion trafnidiaeth, a newid yn yr hinsawdd – rydyn ni'n cyfuno arloesi, arbenigedd a thechnoleg i wneud Gogledd a Chanolbarth Cymru yn lle gwell i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.


Gallwch gyfrannu at waith fydd yn cael effaith gadarnhaol barhaol ar eich cymuned leol gyda sefydliad lle mae amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant yn werthoedd a rennir. Rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd gwaith sy'n gefnogol, yn barchus ac yn gynhwysol, gyda chyfleoedd gwych ar gyfer twf.
Beth am roi cynnig arni? Byddem yn hapus iawn i ystyried eich cais i ymuno â'n tîm medrus, brwdfrydig a chyfeillgar.




# Ble rydym wedi'n leoli?

## Dros 250 o weithwyr ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru

- **Aberystwyth, Ceredigion**
- **Bangor, Gwynedd**
- **Conwy**
- **Dolgellau, Gwynedd**
- **Helygain, Sir y Fflint**
- **Llandrindod, Powys**
- **Drenewydd, Powys**



**Teitl y swydd:** Cydlynydd Cyfathrebu Dros dro



**Cyflog:** £25,584– £27,269 pro rata

**Cyfnod:** dros dro cyfnod 6 mis

**Lleoliad:** **Conwy**

**Dyddiad cau:** 31/10/2024 10:00

**Ffurflenni cais a manylion pellach ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd www.gwynedd.llyw.cymru neu drwy ffonio 01286 679076.**

**Ymgeisiwch**

# Pwrpas y swydd

Fel cydlynydd cyfathrebu byddwch yn gweithio ar y rheng flaen i ddarparu’r wybodaeth ddiweddaraf am gyflwr ffyrdd Cymru. Dyma rôl hollbwysig i’r gwasanaeth, ac rydym yn chwilio am unigolyn brwdfrydig sy’n gallu gweithio’n annibynnol.

Rydym yn chwilio am Gydlynydd Cyfathrebu brwdfrydig i ddarparu gwybodaeth draffig cyfredol i'r cyhoedd. Byddwch yn gyfathrebwr penigamp, gyda’r sgiliau i greu cynnwys difyr ar y cyfryngau cymdeithasol, ac yn meddu ar sgiliau rhyngbersonol arbennig.

Bydd y rôl yn gofyn i'r ymgeisydd weithio shifftiau 12 awr ar sail 4 diwrnod ymlaen a 4 diwrnod i ffwrdd, rhwng 7am a 7pm. Byddwch yn rhan o system rota ar ddyletswydd gyda chydweithwyr, sy’n golygu ymateb i ddigwyddiadau rhwng 7pm-7am.

Byddwch yn gweithio i wasanaeth Traffig Cymru sy’n darparu gwybodaeth traffig Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â'r cyhoedd. Traffig Cymru yw'r cyswllt rhwng y cyhoedd a Chanolfannau Rheoli Traffig Llywodraeth Cymru yng Nghonwy (Gogledd Cymru) a Choryton, ger Caerdydd (De Cymru).

Dyma gyfle i weithio mewn awyrgylch swyddfa brysur, ac i fod yn rhan o dîm medrus o gydlynwyr yn y ganolfan reoli yng Nghonwy. Ymunwch â ni er mwyn datblygu eich sgiliau cyfathrebu mewn maes amrywiol a difyr.



# Cyfrifoldebau

**Prif ddyletswyddau**

- Ateb i ymholiadau a chwynion gan y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill mewn modd proffesiynol i ddarparu ystod eang o ymatebion gan gynnwys: statws rhwydwaith, cyngor ar waith ffordd, cyngor ar lwybrau a gwybodaeth am gyrchfannau
- Rhannu gwybodaeth ddwyieithog gyda'r cyhoedd sy'n teithio trwy ddefnyddio gwefan Traffig Cymru, X a Facebook
- Cynllunio a chreu cynnwys cyfryngau cymdeithasol deniadol i hyrwyddo gwasanaeth Traffig Cymru
- Casglu gwybodaeth sy'n ymwneud â thraffig a'r rhwydwaith o amryw o ffynonellau gan gynnwys darparwyr gwasanaeth, Staff Gweithredol a Gwaith Stryd ACGCC, Llywodraeth Cymru a sefydliadau sector preifat.
- Cydlynu gyda'r Awdurdodau Heddlu perthnasol, gweithredwyr ystafell reoli a staff rheoli'r rhwydwaith yng Ngogledd a De Cymru
- Monitro cyfryngau gan gynnwys y wasg, we a llwyfannau cymdeithasol.




# Manylion Person

**Dylech gyfeirio at y meini prawf penodol i'r swydd hon yn eich ffurflen gais.**

## Meini prawf penodol i'r swydd

**Nodweddion personol:**

**Hanfodol**

- Sgiliau cyfathrebu da yn Gymraeg a Saesneg
- Arddangos mentergarwch personol arwyddocaol a'r gallu i ymdrin â phobl ar bob lefel yn gwrtais, sensitif, a phroffesiynol
- Gallu i flaenoriaethu eich llwyth gwaith eich hun. Gallu i reoli a blaenoriaethu gwaith a thasgau
- Gallu i weithio o dan bwysau a gallu ymdrin â dyddiadau cau llym.

**Cymwysterau a hyfforddiant personol:**

- Pump TGAU o leiaf, yn cynnwys Saesneg a Chymraeg.

**Profiad perthnasol:**

- Profiad mewn swydd sy'n canolbwyntio ar y cwsmer
- Profiad mewn gweithredoedd gweinyddu swyddfa mewn amgylchedd swyddfa brysur
- Sgiliau datblygu a golygu cynnwys ar gyfer cyfryngau cymdeithasol

**Sgiliau a gwybodaeth arbenigol:**

- Cyfarwydd gyda phecynnau cyfrifiadurol e.e. Windows, Excel, ac ati.
- Sgiliau cyfathrebu ardderchog ar lafar ac ysgrifenedig
- Y gallu i gyfieithu rhwng y Gymraeg a'r Saesneg
- Trwydded yrru lawn a glân.

**Dymunol**

- Cymhwyster mewn cyfathrebu neu ofal cwsmer
- Ymdrin ag ymholiadau'r cyhoedd, aelodau etholedig a Llywodraeth Cymru yn effeithiol
- Cyfarwydd gyda gweithdrefnau perthnasol llywodraeth leol a/neu ganolog
- Cyfarwydd gyda Deddf Rhyddid Gwybodaeth ac Amddiffyn Data.

# Gweithio i Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

Rydym wedi ymrwymo i hyfforddi a datblygu ein staff:



- 21.3 sifft (12awr) o wyliau blynyddol y flwyddyn.
- Patrwm gweithio sifftiau 12 awr ar sail 4 diwrnod i ffwrdd



- Cyflog cynyddol.
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Ceir rhagor o  wybodaeth ar wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd.





- Cynlluniau cymorth i brynu car ac i feicio i’r gwaith.
- Arbedion ar siopa bwyd, gwyliau, mynd allan i fwyta, DIY, offer trydanol, yswiriant, moduro, a llawer mwy.



- Cyfleoedd hyfforddi a datblygu mewnol ac allanol.
- Cyfraniad tuag at aelodaeth o gyrff proffesiynol sy'n berthnasol i'r gwaith.



- Gwasanaeth cwnsela cyfrinachol am ddim i staff.
- Absenoldeb ar gyfer mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu.